gunsmoke communications
PR | MEDIA | MARKETING



**DAU o gadetiaid ifanc y fyddin i weithio gyda maer y dref am y 12 mis nesaf.**

Bydd cadetiaid Catrawd Brenhinol Cymru Lillie McCabe-Allen a Rhys Hatenboer yn mynd gyda maer y Rhyl, y Cynghorydd Ellie Chard i rai o'i digwyddiadau dinesig.

Dyma'r ail waith y mae cadetiaid wedi eu dewis i fynd gyda'r maer, arfer a ddechreuwyd gan y maer yn 2018, y Cynghorydd Win Mullen-James. Mae'r teitl anrhydeddus yn deyrnged i waith grwpiau gwasanaeth yn y dref ac mae'n cael ei rannu rhwng y lluoedd awyr, môr a thir.

Dywedodd Lillie, sy'n 15 oed ac yn mynd i Ysgol Uwchradd Eirias, Bae Colwyn, a disgybl Ysgol Uwchradd y Rhyl Rhys, 13, ei bod yn 'anrhydedd' derbyn y swyddi ac roeddynt yn edrych ymlaen at gynrychioli'r dref, yn enwedig ar y Diwrnod Coffa.

Dywedodd Hyfforddwr Platŵn y Rhyl Louise McCabe-Allen bod y cadetiaid wedi eu dewis i gydnabod eu gwaith gyda grŵp y fyddin sy'n cyfarfod ddwywaith yr wythnos yn John Street, y Rhyl.

**Mwy/…**

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications

Meddai: “Mae Rhys a Lillie yn arddangos yr hyn yw bod yn gadet byddin da. Maent yn ymroddedig i fynychu ac arddangos gwerthoedd dinesydd da; yn ddangos parch ac yn helpu i feithrin cadetiaid ifanc wrth iddynt godi trwy’r rhengoedd. Mae hwn yn gyfle gwych iddyn nhw.”

Hoffai Lillie a Rhys ddilyn gyrfa yn y fyddin yn y pen draw, a dywedodd y Cynghorydd Chard ei bod yn gobeithio y byddai’r cyfle yn rhoi profiad gwerthfawr ychwanegol i’r cadetiaid.

“Mae Rhys a Lillie yn gadetiaid brwdfrydig ac ymroddedig a bydd ganddynt, rwy’n siŵr, yrfa wych yn y fyddin o’u blaenau. Mae gennym lawer i edrych ymlaen ato dros y 12 mis nesaf, ac rwyf wrth fy modd yn cael dau o bobl ifanc mor ysbrydoledig i ddod gyda mi ar achlysuron nodedig,” ychwanegodd.

**Diwedd**